

Ebrill 2020

Disgwyliadau Cynulleidfaoedd mewn byd digidol

Ymchwil Ipsos MORI ar gyfer Ofcom

Crynodeb gweithredol

Comisiynodd Ofcom Ipsos MORI i gynnal ymchwil i'w helpu i ddeall sut mae disgwyliadau cynulleidfaoedd o gynnwys clyweledol yn datblygu mewn byd digidol. Roedd yr ymchwil yn edrych ar agweddau newidiol y cyfranogwyr at safonau cynnwys a'u profiadau o raglenni ar draws llwyfannau, gan gynnwys: gwasanaethau teledu, radio, dal-i-fyny, tanysgrifio a rhannu fideos.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys gweithdai ymgynghori gydag aelodau o'r cyhoedd ledled y Deyrnas Unedig, ynghyd â chyfweliadau mewn grwpiau bach a chyfweliadau manwl gyda grwpiau penodol. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 26 Medi a 19 Tachwedd 2019.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r dewis cynyddol o gynnwys clyweledol sydd ar gael. Roedd y dewis hwn yn rhoi mwy o ymdeimlad o reolaeth oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi dewis mwy o'r hyn roeddent yn ei wyllo ac yn gwrando arno. Fe wnaethant gymharu hyn â darllediadau teledu a radio, lle gallant ddod ar draws cynnwys yn ddamweiniol y byddant yn eu hosgoi fel arall.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai pobl ddylai fod yn bennaf gyfrifol am benderfynu beth maent yn ei wyllo ac yn gwrando arno. Roeddent eisiau i reoleiddwyr a darlledwyr wneud yn siŵr bod cynnwys yn cyd-fynd â disgwyliadau pobl, fel bod cynulleidfaoedd yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus.

Nid oedd llawer yn ymwybodol o fanylion y rheoliadau presennol ac roedd dryswch ynghylch sut y mae hyn yn berthnasol, yn benodol ar gyfer gwefannau dal-i-fyny, gwefannau tanysgrifio a gwefannau rhannu fideos. Hefyd, roedd dryswch ynghylch a oedd rheolau'r Deyrnas Unedig yn berthnasol i sianeli sy'n darlledu cynnwys sydd wedi'u cynhyrchu y tu allan i'r DU, neu cynnwys sydd ddim yn Saesneg, ac roedd dryswch ymysg rhai cyfranogwyr o gefndir ethnig lleiafrifol.

Ar ôl cael cyflwyniad i'r Cod Darlledu, gan gynnwys diffiniadau o gynnwys niweidiol, cynnwys tramgwyddus a rhyddid mynegiant¹, roedd y cyfranogwyr yn credu bod yr holl reolau yn bwysig ac nid oedd fawr o awydd eu newid:

- Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n llwyr ei fod yn allweddol i ddiogelu plant rhag cynnwys amhriodol, ac roeddent eisiau rheolau ar gyfer hyn. Fodd bynnag, roeddent yn credu mai rhieni sy'n bennaf gyfrifol dros y cynnwys y mae plant yn eu defnyddio.
- Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod heriau o ran defnyddio'r rheolau ar gyfer cynnwys tramgwyddus oherwydd ei natur oddrychol. Roeddent yn canolbwyntio ar bobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl fel eu bod yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft, drwy gael mynediad at wybodaeth glir am y cynnwys mewn rhaglenni.
- Er hyn, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cytuno bod normau cymdeithasol ynghylch troseddu wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae Ofcom yn rheoleiddio cynnwys tramgwyddus. Roedd y cyfranogwyr yn credu y dylid blaenoriaethu

¹ Rhyddid mynegiant yw hawl pawb i gael barn heb ymyrraeth a'r hawl i geisio, derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau.

mynd i'r afael â chynnwys sy'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol, yn hytrach na mathau eraill o gynnwys tramgwyddus.

- Ystyriwyd bod cynnwys niweidiol yn fwy difrifol na chynnwys tramgwyddus, ac roedd pryderon sylweddol ynghylch sut mae cynnwys niweidiol yn effeithio ar agweddau ac ymddygiad. Wrth i'r trafodaethau ddatblygu, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai oedolion (yn arbennig oedolion agored i niwed) a'r gymdeithas yn gyffredinol gael eu heffeithio gan gynnwys clyweledol. Roedd hyn yn herio eu barn gychwynnol, sef y dylai oedolion benderfynu drostynt eu hunain beth i'w wyllo/gwranddo.
- Trafodwyd y postensial o niwed yn aml wrth ystyried y gwahanol reolau yn y Cod Darlledu. Roedd rheolau ynghylch troseddu, anhrefn, casineb a chamdriniaeth yn bwysig iawn i'r cyfranogwyr ac yn cael eu cysylltu'n gryf â niwed posibl. Gwnaethant bwysleisio y dylai Ofcom ganolbwyntio ar gynnwys sy'n cymell casineb neu drosedd, hyd yn oed os oedd hyn ar sianeli neu orsafoedd llai.

Wrth fynegi eu barn am y clipiau a ddangoswyd iddynt ac am y 'sefyllfaoedd rhaglenni' damcaniaethol a ddangoswyd yn ystod y trafodaethau, ystyriodd y cyfranogwyr tri chwestiwn eang:

Beth gafodd ei ddarlledu: gan gynnwys y geiriau penodol, delweddau, tŷn, sain a'r llinell stori.

Ystyriodd y cyfranogwyr a oedd yr enghraifft yn cynnwys amrywiaeth o ffactorau gwahanol megis noethni graffig neu gyson, cynnwys rhywiol neu dreisgar gref, neu iaith anwedus neu wahaniaethol. Hefyd, fe wnaethant ystyried a allai tŷn yr enghraifft beri gofid i rywun, neu a oedd wedi'i dargedu at grŵp neu unigolyn penodol.

Pam gafodd ei ddarlledu: Fe wnaeth y cyfranogwyr bwysu a mesur pam eu bod nhw'n meddwl y cafodd y cynnwys ei ddefnyddio mewn rhaglenni. Gwnaethant ragdybiaethau am gymhellion cynhyrchwyr, cyflwynwyr a darlledwyr y rhaglenni. Er enghraifft, fe wnaethant ystyried genre'r rhaglen, gyda chymhellion gwahanol yn i raglenni dogfen neu newyddion o'i gymharu â drama neu gomedi.

Sut cafodd ei ddarlledu: Canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar a fyddai pobl yn gallu dod ar draws cynnwys na fydden nhw eisiau eu gwyllo neu wrando arnynt yn ddamweiniol. Gwnaethant ystyried sawl ffactor a allai helpu i reoli disgwyliadau cyfranogwyr am raglen, gan alluogi gwylwyr i wneud penderfyniad gwybodus:

- Amser y darllediad, gan ddibynnu'n aml ar y trothwy fel marciwr ar gyfer gwahanol fathau o gynnwys.
- Enw da'r cyflwynwyr, y sianeli neu orsafoedd, a rhaglenni unigol – ynghyd â genre.
- A gafodd amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol eu cynnwys, yn arbennig ar gyfer themâu dadleol sy'n cynnig sawl persbectif ar bwnc.
- Gwybodaeth am raglen megis teitlau priodol, disgrifiadau clir a rhybuddion cywir.

Yn gyffredinol, ystyriodd y cyfranogwyr y tri chwestiwn hyn – gan bwysu a mesur y nodweddion a oedd yn gwneud yr enghraifft yn fwy neu'n llai derbyniol – cyn dod i farn derfynol. Mae rhagor o fanylion am eu hagweddau at glipiau a sefyllfaoedd gwahanol ar gael yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiad 'Clipiau a sefyllfaoedd' ategol.

Roeddent yn derbyn i ryw raddau y gallai rheolau gwahanol fod yn berthnasol i wahanol lwyfannau.

Roedd agweddau'n cael eu dylanwadau gan i ba raddau oedd y cyfranogwyr yn teimlo mewn rheolaeth:

- Roeddent yn awyddus iawn i gadw'r rheolau presennol ar gyfer y teledu a radio oherwydd roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o ddod ar draws cynnwys yn ddamweiniol ar y llwyfannau hyn.
- Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus bod llai o reolau ar wasanaethau dal-i-fyny a thanysgrifio nag ar wasanaethau teledu a radio. Y rheswm dros hyn oedd eu bod yn teimlo bod ganddynt ddewis gweithredol wrth ddewis cynnwys ac felly roedd ganddynt fwy o reolaeth ar y llwyfannau hyn. Fodd bynnag, roeddent yn tybio, os byddai rhaglen wedi'i ddarlledu'n flaenorol ar deledu neu radio, byddai'n dilyn yr un rheolau â gwasanaethau ar-lein.
- Roedd pryderon ynghylch diffyg rheolau ymddangosiadol ar safleoedd rhannu fideos, lle'r oedd cyfranogwyr yn poeni am ddod ar draws cynnwys sy'n achosi gofid neu gynnwys anaddas yn ddamweiniol. Roedd rhestri chwarae, ffenestri naid, a chynnwys gan ddefnyddwyr heb eu gwirio yn achosi pryder i lawer ohonynt.